Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 11.11.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# DIGWYDDIAD: Gweminar Busnes@gwynedd.llyw.cymru – Arbed Ynni, Arbed Arian 22 Tachwedd 2022

Busnes@gwynedd.llyw.cymru – bydd gweminar yn cael ei gynnal ar 22 Tachwedd 2022 sy'n cynnig cyngor ymarferol i fusnesau i leihau eu defnydd ynni a'r costau cysylltiedig ac yn darparu cyngor ynghylch y gefnogaeth sydd ar gael yn ehangach i wneud hynny. Am ragor o wybodaeth ac i gofrestru, ewch i:

https://bit.ly/3T6OAZX

# DIGWYDDIAD: Rhwydwaith Sero Net Gogledd Cymru – 29 Tachwedd 2022

Mae Rhwydwaith Sero Net Gogledd Cymru yn dod â busnesau allweddol a sefydliadau perthnasol ynghyd o gwmpas yr elfennau pwysig o ddarparu datgarboneiddio ac ysbrydoli, hysbysu a chynghori busnesau ar eu taith i Sero Net. Cynhelir sesiwn rwydweithio wyneb yn wyneb Sero Net Gogledd Cymru yng Nghanolfan Busnes Conwy ar 29 Tachwedd 2022 (1:00pm – 4:00pm). I gofrestru, ewch i:

https://bit.ly/3EgLuyd

# DIGWYDDIAD: M-SParc #ArYLôn Bangor – Digwyddiadau Tachwedd

Mae M-SParc #ArYLôn yn cynnal nifer o ddigwyddiadau wyneb yn wyneb yn Nhachwedd 2022 yn eu lleoliad ym Mangor – 204 Stryd Fawr, LL57 1NY:

- Scratch i Rieni | Cyflwyniad i Raglennu – 24 Tachwedd 2022 (12:30pm-2:30pm): https://scratch-bangor.eventbrite.co.uk

- Gweithdy Argraffu Sgrîn – 29 Tachwedd 2022 (4:30pm-7:00pm): https://argraffusgrin4.eventbrite.co.uk

- Digwyddiad Myfyrwyr Mentrus – 30 Tachwedd 2022 (12:30pm-5:00pm): https://myfyrwyrmentrus.eventbrite.co.uk

- Podledu Ar Gyfer Busnes – 30 Tachwedd 2022 (4:00pm-6:00pm): https://podcastingbusiness.eventbrite.co.uk

# CYNGOR: Allai eich busnes chi ymdopi â thywydd garw'r gaeaf?

Gall amhariadau oherwydd y tywydd ddigwydd mewn unrhyw le ac ar unrhyw adeg, felly bydd creu cynllun parhad busnes yn eich helpu i ddeall a rheoli'r peryglon sy'n wynebu busnesau mewn achosion o eira mawr, llifogydd neu dywydd tebyg a sicrhau gwydnwch yn dilyn argyfwng. Mae mwy o wybodaeth, a dolenni defnyddiol, ar gael ar:

https://bit.ly/3hsKq1i

# DIGIDOL: Rhedeg busnes ac yn poeni am gostau cynyddol?

Mae costau cynyddol wedi dechrau effeithio arnom yn bersonol ac yn broffesiynol. Darganfyddwch 7 datrysiad meddalwedd Cyflymu Cymru i Fusnesau a allai helpu arbed arian ac amser i chi o fewn eich busnes, ewch i:

https://bit.ly/3TpQlRW

# NEWYDDION: Canolfan Ragoriaeth Gofal Iechyd newydd i Wynedd

Bydd Siemens Healthineers yn lansio canolfan rhagoriaeth gofal iechyd yn Llanberis, gan ddod â buddsoddiad o filiynau o bunnoedd mewn ymchwil a datblygu ynghyd â sicrhau swyddi o ansawdd uchel yn y tymor hir gyda chymorth Llywodraeth Cymru. Darllenwch y stori'n llawn ar:

https://businessnewswales.com/new-healthcare-centre-of-excellence-for-gwynedd/

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru